

FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

**Cofnodion y chwe deg nawfed cyfarfod a gynhaliwyd ddydd
Gwener, 1 Rhagfyr 2017 ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr, Cefn
Mawr**

01/11 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

YSGRIFENNYDD:

Caroline Selby (CS)

CADEIRYDD:

Tim Stratton (TS)

AELODAU:

Penelope Coles (PC)

Edwina Hart (EH)

Sharron Jones – tan 11.05am

Mike Crawshaw (MC) - o 10:25am

Gerald Moss (GM)

Edward Wardle (EW)

Martin Howorth (MH)

RHAI NAD YDYNT YN AELODAU:

Sean Hanratty (SH) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Siôn Roberts (SR), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Alun Price (AP) Cyfoeth Naturiol Cymru – o 10.10am

David Collins (DC), Arsylydd

Jean Rosenfeld (JR) - Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint

Ymddiheuriadau:

Mabyn Pickering

Bill Stephens

Mari Jones Undeb Amaethwyr Cymru

Croesawodd TS bawb i'r cyfarfod.

02/11 ASESIAID O'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Dosbarthodd MH y canlynol, Arolwg Amodau, Adolygiad Crynodeb y Canlyniadau Ymgynghoriad Arolwg Pontydd a Hawliau Tramwy 2017.

Cyrhaeddodd AP y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Fe aeth MH drwy'r papur.

Dim ond ar un bont y gwnaed gwaith sylweddol arni eleni.

Dywedodd MH y byddai'r wybodaeth uchod yn cael ei chynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, ac fe ddylai drafft y cynllun hwnnw fod yn barod erbyn mis Mawrth / Ebrill 2018.

Gweithiwyd ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwethaf diolch i'r tîm Hawliau Tramwy a chyllid cyfalaf.

TS – a oes modd i geisio cyllid er mwyn ymgymryd â'r gwaith?

MH – bydd posibilrwydd o gydweithio flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.

JR – mae strategaethau am fod yn wahanol.

MH – ni fydd llawer o wahaniaeth gan fod hwn yn Gynllun 10 mlynedd.

JR – bydd cynlluniau eraill e.e.Teithio Llesol yn effeithio arno ac mae hyn golygu bod angen i adrannau eraill gymryd rhan weithredol.

MH - bydd yr holl ddogfennau yn eang ac yn cynnwys adrannau eraill.

EH - a oedd adborth ynglŷn â lle oedd llwybrau yn croesi ffiniau?

MH – nag oedd, ond bydd hyn yn cael ei grybwyll, er nid yn fanwl.

GM – mae llawer o lwybrau yn croesi ffiniau.

MH – mae'n datblygu'n dda.

JR – o ran y drafft cychwynnol, a fydd ganddo o leiaf tair blynedd o Gynlluniau Gweithredu?

MH – na. Dan Arweiniad mae hyn ar wahân. Bydd Cynlluniau Gweithredu yn cael eu datblygu yn ddiweddarach. Hefyd, nid yw hyn yn yr amserlen, haf 2018 o bosib. Ni fydd yn barod i gynnwys gwybodaeth ddigonol ond fe ddylai fod yn barod yn y flwyddyn nesaf.

TS – roeddwn yn meddwl y byddai'n dda o beth i gael gwybodaeth gan grwpiau eraill.

JR – fe fydd hi'n 2019 mwy na thebyg.

MH – bydd, 2019.

Cyrhaeddodd MC y cyfarfod ar y pwynt hwn.

JR- mae angen gwahanu Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu oherwydd bod Cynlluniau Gweithredu yn gallu bod yn fwy hyblyg.

GM – a fydd unrhyw beth yn cael ei gynnwys am Cross Wales?

MH- gan ei fod yn gynllun 10 mlynedd, bydd angen i'r hyn sy'n cael ei gynnwys fod yn eang, wrth i bethau eraill ddod i mewn neu fynd allan

yn ystod y 10 mlynedd. Rwyf yn eich cynghori i edrych ar y Drafftiau unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi.

TS – dylid ymgymryd â drafft o Hawliau Tramwy strategol o safbwynt y Fforwm Mynediad Lleol.

MH – bydd y Drafft yn mynd ger bron y Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth, yna bydd Datganiad o'r Camau yn cael ei ddrafftio gydag ymgynghoriad cyhoeddus am dri mis. Dylai'r Cynllun Gweithredu cyntaf fod yn barod tua mis Hydref / Tachwedd 2018.

TS- o ran y broses, pwy fydd yn ei weld gyntaf, y Fforwm Mynediad Lleol neu'r Pwyllgor Craffu?

MH – mae'n dibynnu ar logisteg ond gobeithiaf ei anfon at y Fforwm Mynediad Lleol a'r Pwyllgor Craffu ar yr un pryd. Mae'n ddogfen i CBSW ond mae mewnbyn y Fforwm Mynediad Lleol yn bwysig.

TS – o ran cysondeb, dylid ffurfio'r Fforwm Mynediad Lleol newydd mewn pryd.

JR – mae'n rhy fuan i drafod Fforwm Mynediad Lleol ar y cyd, gan nad ydym wedi ymgynghori â Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint.

MH – Mae CBSW wedi cytuno a, hyd y gwyddwn i, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cytuno hefyd.

MC – beth yw'r fantais?

MH – bydd yn well fel corff strategol. Mae CBSW wedi penderfynu y bydd yn mynd rhagddo a bydd yn adlewyrchu strwythur yr AHNE yn well.

JR - bydd hyn yn anodd ei reoli fel Fforwm Mynediad Lleol mwy. Nid wyf yn erbyn newid ac nid yw newid o reidrwydd yn beth drwg.

MH – codir hyn ym mhob adran lle bo newidiadau ar y gweill.

JR – pa mor fawr ydych chi'n rhagweld y Fforwm Mynediad Lleol newydd?

MH - nid oes unrhyw waith wedi'i wneud ar hyn o bryd, ond mae angen ffurfio dull mwy strategol o weithio. Mae pob Cyngor o dan bwysau i arbed arian, er efallai na fydd y costau'n is i ddechrau.

JR – a fyddwn yn rhannu adnoddau?

MH – lle bo hynny'n bosib, ond bydd rhaid cynnal trafodaeth.

TS – pan sefydlwyd y Fforymau Mynediad Lleol yn wreiddiol, roeddent yn lleol, felly mae cyfuno yn mynd yn erbyn y weledigaeth wreiddiol.

MH – mae'n nodi y bydd un Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol.

TS – mae'n nodi'r gwrthwyneb yn y Canllaw.

MH – nid yw hynny'n wir.

03/11 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Y prif destun trafod oedd yr uno arfaethedig ac mae gennyf gopi o gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd. (Copi ynghlwm). Roedd y cyfarfod yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes wedi cael ei ddweud. Nid oedd aelodau Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint nag aelodau Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn gallu gweld unrhyw fantais ac ni fu ymgynghori â hwy ychwaith. Nid oedd yr aelodau yn gallu cefnogi'r uno arfaethedig gan nad oedd modd gweld unrhyw fantais. Dylai hyn fod wedi ei roi ar wefan CBSW.

JR – Roeddwn yn siomedig ynghylch y diffyg cynrychiolaeth gan CBSW. Gall cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol alw cyfarfod swyddogol ar unrhyw adeg.

MH – gall cadeiryddion alw cyfarfodydd ond nid oes rhaid i'r Awdurdod Lleol eu mynychu.

TS - mae'n anffodus, ers yr ailgyfansoddiad, nad oes cynrychiolydd o Sir Ddinbych wedi mynychu unrhyw gyfarfod Fforwm Mynediad Lleol arall ac nid ydym ychwaith wedi derbyn gwahoddiad i unrhyw un o'u cyfarfodydd hwy.

Mynychais gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Basn Dyffryn Dyfrdwy, ac fe ofynnwyd cwestiwn ynglŷn â Chyfoeth Naturiol Cymru a mynediad. Nid oes map nac ychwaith unrhyw wybodaeth arall ynglŷn â'r hyn sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

Coleg Reeseheath – ardal Maelor – bydd Cynllun Rheoli Dŵr yn cael ei lunio gan fod mynediad presennol yn achosi straen mewn rhai ardaloedd.

MC – mae pethau'n iawn ym mhob man, oni bai am ar y tiroedd sy'n cael eu ffermio, oherwydd diffyg rheolaeth gan CBSW, mae nentydd bychain yn cael eu llygru gan achosi problemau, yn ogystal â ffosydd mawr yn cael eu creu gan gerbydau 4x4 ac ati.

TS – Mae United Utilities yn ymwybodol o'r problemau a byddai o gymorth mawr pe bai pawb yn cydweithio. Mae hefyd yn fater i'r heddlu.

MC – bu cyfarfod ar y safle gyda'r heddlu a chynrychiolwyr y cyngor yn bresennol er mwyn dangos y difrod. Dim ond mater o amser yw hi cyn i gerbyd ddisgyn i'r nant ac i betrol neu ddisel lifo ac achosi llygredd pellach. Mewn rhai blynyddoedd, ni fydd modd pasio rhai rhannau. Mae'r heddlu wedi

bod yn gysylltiedig â'r mater hwn ac yn ymwybodol mai dim ond mater o amser yw hi cyn y bydd damwain.

TS – beth fydd yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ynglŷn â hyn?

MH – mae'r bobl gywir yn gysylltiedig â'r mater. Mae angen i'r mater hwn fod yn rhan o'r Cynllun Asedau ond mae diffyg cyllid yn broblem. Bydd priffyrdd yn cael blaenoriaeth oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio fwyaf a bydd ffyrdd eraill yn cael blaenoriaeth is oherwydd bod adnoddau'n lleihau.

EH – mae risg i ddyfrffyrdd yn yr ardal.

TS – mae risgiau i briffyrdd, iechyd a diogelwch y cyhoedd, dyfrffyrdd ac mae angen i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gynnwys y risgiau o'r holl sectorau priodol. Gallai hyn arwain at gael cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

MH – nodwch y sylwadau hyn yng Nghynllun drafft Gwella Hawliau Tramwy ac os oes modd cael cyllid ychwanegol byddai hynny o fantais.

TS – dylid defnyddio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i gael cyllid gan gyrff eraill. Bydd cyllid yn dod gan ffynhonnellau eraill ac nid gan yr awdurdod lleol.

MC – mae unigolion yn gyrru dros giatau, mae ffensys yn cael eu torri ac yn ogystal, mae llawer o'r gyrrwyr yn ymddwyn yn ymosodol. Mae'r broblem yn mynd o ddrwg i waeth.

EH - gall unigolion sy'n "chwarae" achosi problemau a llygredd ond gall ffermwyr gael eu herlyn.

TS – daeth EH o hyd i glip fideo ar You Tube. A oes modd ei ddefnyddio?

MC – Mae Green Gates yn pryderu gan fod y sefydliad yn cael enw drwg. Mae'n ceisio sicrhau nad oes modd ymyrryd â'r camerâu bywyd gwyllt.

EH- roedd gennym wefan, ond bu'n rhaid ei chau oherwydd camddefnydd gan eraill. Mae hyn yn drasiedi ar gyfer cefn gwlad.

04/11 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD

Ers y cyfarfod diwethaf, rwyf wedi teipio a dosbarthu'r dogfennau a'r wybodaeth

- Rhaglen
- Cofnodion
- Gwybodaeth a dderbyniwyd ynglŷn â chyfarfodydd, papurau, gan gynnwys Y Fforwm Mynediad Lleol Cenedlaethol, Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol, ac ati

Cysylltu trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn:

- Parc Gwledig Dyfroedd Alun ynglŷn ag archebu
- Parc Gwledig Tŷ Mawr ynglŷn ag archebu
- Fforymau Mynediad Lleol Sir Ddinbych a Sir y Fflint
- Aelodau ynglŷn â Chyfarfod ar y Cyd gyda Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint

Dosbarthwyd gwybodaeth ynglŷn â'r

- Diweddaraf ar Gomisiynu – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyfarfod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol

Mynychwyd:

- Cyfarfod Ailstrwythuro

Rwyf wedi derbyn copïau o'r canlynol:

- Gorchymyn Gwyo Llwybr Cyhoeddus 2017 – Llwybr Cyhoeddus Brychdyn 50 a Brymbo 43

05/11 DOGFENNAU YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU

Nodwyd nad oedd unrhyw ddogfen newydd nac ychwaith unrhyw gynnydd mewn perthynas ag unrhyw un o'r dogfennau cyfredol.

06/11 TREFNIADAU NEWYDD Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Trafodwyd hyn yn 02/11.

Bydd MH yn cwrdd â'i swyddog cyfatebol yng Nghyngor Sir Y Fflint yn ystod y flwyddyn newydd i drafod y mater ymhellach.

07/11 CYFOETH NATURIOL CYMRU

Lansiwyd y broses ariannu newydd ddydd Iau diwethaf ac mae'r broses ymgeisio am grant ar gael.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar:

- Ddatganiadau Ardal o 2019/ 20
- Gweithio fel rhan o dimau mwy ar draws ardaloedd ehangach

2018 – mae Heriau Ardaloedd wedi'u nodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac maent ar gael ar y wefan.

Yr ardaloedd yw – y gogledd-orllewin – y gogledd-ddwyrain – y canolbarth Heriau yw'r rheiny sydd angen datrysiad gyda phartneriaid. Chwilio am gydweithio a chyd-bartneriaeth.

Mae angen canfod pa Heriau sy'n ateb gofynion y Fforwm Mynediad Lleol a bwrw ymlaen â Datganiad o Ddiddordeb.

Bu toriad yn y gyllideb – oddeutu £280,000 ar gyfer y gogledd orllewin a £280,000 ar gyfer y gogledd-ddwyrain.
Bydd cyfnod o ddeunaw mis hyd at 2019/ 20.

EH – a fydd angen i bartneriaid ddod â chyllid?
AP – bydd gofyn iddynt ddod â rhywfaint o gyllid.

Gadawodd SJ y cyfarfod ar y pwynt hwn.

TS – rwy'n gweld bod gan y Fforwm Mynediad Lleol rôl i'w chwarae o ran dod â sefydliadau sydd â diddordeb ynghyd er mwyn sicrhau ymagwedd gyffredin. Rwy'n rhagweld y bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ddogfen werthfawr iawn i'w defnyddio wrth wneud ceisiadau.
MH – ydi, mae hynny'n bosibilrwydd.

AP – rhaid cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb erbyn 14 Ionawr 2018 a bydd y datganiadau hynny wedyn yn cael eu hystyried gan baneli mewnol. Os yn llwyddiannus, bydd gofyn i'r ymgeisydd lenwi ffurflen gais.

TS – a yw Fforwm Mynediad Lleol y gogledd-ddwyrain yn debygol o gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb?

AP – bydd y strwythur cyllido yn wahanol yn 2019.

JR – mae'r Fforwm yn annhebygol o gyflwyno datganiad o ddiddordeb oherwydd y terfyn amser.

TS – cytunaf.

AP – mae dogfen wybodaeth ar y wefan. Mae cafeatau wrth ddyfarnu beth yw sefydliad. Bydd Panel Asesu a Chraffu ar Gyllid.

Gofynnodd TS i'r rheiny a oedd y bresennol os fyddai eu sefydliadau â diddordeb mewn cydweithio i greu dulliau a defnyddio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel dogfen.

EH – mi fwaswn i â diddordeb.

JR – angen canfod partneriaid sy'n gallu darparu 10% o'r cyllid.

TS – byddai'n haws po fwyaf mae partneriaid yn cydweithio. E.e. gallai sefydliadau partner ariannu arwyddion mewn ardaloedd penodol sy'n adlewyrchu eu diddordeb.

MH – nid yw CBSW yn gallu cyflwyno ceisiadau gan nad oes capasiti ar gyfer camau dilynol. Byddai'n rhaid iddo fod yn is-bwyllgor e.e. Cymdeithas y Cerddwyr i gymryd rôl arweiniol. Nid yw'r Fforwm Mynediad Lleol yn gallu cyflwyno cais ond gall weithio gyda sefydliadau eraill. Byddai CBSW yn bartner ac yn gwirio bod gwaith yn cael ei wneud yn gywir.

TS – os yw'r llywodraeth â diddordeb mewn cydweithio, yna cyfrifoldeb y sefydliadau sydd â chynrychiolwyr yma yw adrodd yn ôl i weld beth fyddai'r ymateb tuag at gydweithio.

AP – rwyf wedi e-bostio rhestr o Gynlluniau Gweithredu a map o ddaliadau Cyfoeth Naturiol Cymru at CS.

CS – anfonwyd rhain ymlaen at aelodau.

08/11 DIWEDDARIAD AR ORCHMYNION ADDASU

Cafodd papur ei gylchredeg gan SH gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

Achosion cyfredol ar 01 Rhagfyr 2017

GORCHMYNION ADDASU

Glyn Ceiriog 11

Anfonwyd adroddiad ymchwilio. Cynhaliwyd cyfarfod penderfynu – mae angen cyfarfod penderfynu arall. Cymeradwywyd yr hysbysiad penderfynu. Bydd llythyr penderfyniad yn cael ei anfon allan, a bydd gorchymyn yn cael ei wneud ar gyfer cilffordd gyfyngedig. Gorchymyn wedi ei wneud, gwrthwynebiadau wedi eu derbyn, achos i'w anfon i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Ar ôl i'w wneud

Ymchwiliad i'w gynnal ac adroddiad i'w lunio. Adroddiad i'w anfon, cyfarfod penderfynu i'w gynnal.

Glyn Ceiriog 50

Cynhaliwyd archwiliad ac mae'r adroddiad i'w anfon cyn y Nadolig. Anfonwyd adroddiad ymchwilio. Cynhaliwyd cyfarfod penderfynu – mae angen cyfarfod penderfynu arall. Cynhaliwyd cyfarfod penderfynu arall. Hysbysiad o benderfyniad i'w anfon allan.

Penycae 8

Anfonwyd adroddiad ymchwilio. Cyfarfod penderfynu i'w gynnal. Penderfyniad i wneud gorchymyn fel y gofynnwyd.

GWYRIADAU

Llwybr Troed Brychdyn 50

Ymgynghoriad wedi ei gwblhau – angen drafftio'r gorchymyn. Gwnaed y gorchymyn – dim gwrthwynebiad. Bydd y datblygwr yn gwneud gwaith i sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd safon foddhaol yna bydd y gorchymyn yn cael ei gadarnhau. Mae'r datblygiad ar y tir yn wahanol i'r cynlluniau felly nid oes modd cadarnhau'r gorchymyn. Gorchymyn newydd wedi'i wneud a'i hysbysebu.

Y Mwynglawdd 29

Mae llythyrau ymgynghori wedi'u hanfon at grwpiau defnyddwyr, ymgwymerwyr statudol, ac ati. Gorchymyn i'w wneud.

Brymbo 89

Ymgynghoriad wedi'i gwblhau. Disgwyl i'r gorchymyn gael ei wneud. Gorchymyn wedi'i wneud a'i hysbysebu. Derbyniwyd gwrthwynebiad. Angen anfon y Gorchymyn at yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn am gadarnhad.

Cefn 54 (diddymu rhannol)

Ymgynghoriad wedi ei gwblhau – angen drafftio'r gorchymyn.

Worthenbury 3

Gorchymyn gwyro wedi'i wneud. Gorchymyn yn cael ei hysbysebu wythnos nesaf.

TS – dyma ddiwedd cyfnod swydd y Fforwm Mynediad Lleol hwn. Mae adroddiadau SH o waith CBSW yn dda, oherwydd y gallwn weld y cynnydd a wnaed.

JR - yn Sir y Fflint, mae rhan fwyaf yr ôl-groniad y Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol wedi'i glirio ond nid yw Gorchmynion Addasu a Gwryiadau yn cael eu trafod yn yr un modd, dim ond nifer yr achosion sy'n weddill sy'n cael eu cyhoeddi mewn cyfarfodydd.

TS – sawl cais newydd y flwyddyn?

SH - oddeutu 3 y flwyddyn a chaiff 3 o geisiadau eu cwblhau'r flwyddyn.

Diolchodd TS i SH am y wybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol.

09/11 ADRODDIAD Y CEIDWAD MYNEDIAD

Cylchredwyd lluniau a mapiau o'r holl waith a wnaed.

DC – mae llawer o waith wedi'i wneud ar giatiau. A fydd hyn yn parhau flwyddyn nesaf?

MH – bydd, os yw o fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac os yw cyllid ar gael.

SR – pan fyddaf yn cerdded ym mis Mawrth, byddaf yn gallu gweld yr hyn sydd ei angen a gellir archebu giatiau.

SR – mae pont wedi'i hadeiladu yn Worthenbury.

10/11 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD 8 MEDI 2017

Tudalen 7 05/11 dileu 'Leaning' a'i newid i 'Learning'.

Gyda'r cywiriad hwn, cynigiwyd y cofnodion gan Pene Coles, a chawsant eu heilio gan Edward Wardle, a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

11/11 MATERION YN CODI

- a) Tudalen 4 cylchredwyd yr ymateb
- b) Tudalen 6 cais i Weinidogion Cymru am estyniad
- c) Tudalen 9 ni chyflwynwyd unrhyw ymateb oherwydd ni dderbyniwyd unrhyw sylw.

Ymgwymerwyd â'r holl gamau gweithredu eraill o'r cyfarfod.

12/11 ADRODDIAD BLYNYDDOL

TS – a fydd Adroddiad Blynyddol?

MH – na fydd, nid eleni.

TS – mae Cyfoaeth Naturiol Cymru yn disgwyl Adroddiad Blynyddol.

MH- nid oes unrhyw un wedi gofyn am adroddiad blynyddol yn flaenorol ond byddai trefniadau yn cael eu gwneud.

13/11 EITEMAU AR GYFER Y RHAGLEN NESAF

Nid ydym yn gwybod pryd fydd y Fforwm Mynediad Lleol newydd yn cwrdd.

MH – diolchaf i bawb am fod yn aelod. Er nad ydym bob amser yn cytuno, rwy'n gwerthfawrogi'r holl amser ac ymdrech a roddir.

Byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith y bydd y trefniadau ar gyfer y Fforwm Mynediad Lleol newydd yn hysbys a buasawn yn croesawu eich mewnbwn.

TS – gydag anogaeth aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yng Ngheredigion, mae Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n wahanol i Gylch Gorchwyl. Efallai bod hyn yn berthnasol fel Cylch Gorchwyl ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol ar y cyd nad yw ar gael.

MH – bydd angen sefydlu Cytundeb rhwng Wreccsam a Sir y Fflint yna bydd cylch gorchwyl yn cael ei lunio ar gyfer y Fforwm Mynediad Lleol newydd. Byddaf yn edrych ar lunio Memorandwm o Ddealltwriaeth.

JR – byddai hyn yn ddefnyddiol gan fod y ddau Fforwm Mynediad Lleol yn gweithredu'n wahanol iawn i'w gilydd. Hoffwn i swyddogion o adrannau eraill fynychu gan fod hyn yn ddefnyddiol iawn.

MH – dim ond chwarter y niferoedd staff sydd yn Wreccsam o gymharu â nifer yr aelodau staff yn Sir y Fflint.

TS - a fydd y Grwpiau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd?

MH – nid wyf yn sicr, bydd yn rhaid i mi ymchwilio i hyn.

JR – mae addysg am yr awyr agored yn bwysig i blant ac unigolion ag anabledau. Hoffwn i'r Fforwm Awdurdod Lleol newydd barhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan Sir y Fflint yn y meysydd hyn.

TS – rydym yn symud i dymor newydd. Os oes angen cymorth â llunio cylch gorchwyl ac ati, yna cysylltwch ag aelodau sydd yn meddu ar y wybodaeth ac yn fodlon helpu. Gellir pasio'r gwersi a ddysgwyd yn flaenorol yn eu blaenau. Mae cyfarfod cyntaf y tymor Fforwm Mynediad Lleol newydd, yn Wreccsam, yn gweithio'n dda.

14/11

UNRHYW FATER ARALL

- a) PC – a oes modd gofyn i'r heddlu fynychu cyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol, mewn perthynas â cherbydau 4x4 ac ati ac erlyniadau?

MC - nac oes, gan fod problemau'n codi ar dir preifat. Mae angen tystiolaeth. Mae deddf newydd yn dod i rym a fydd efallai o gymorth.

15/11

Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad, amser a lleoliad – i'w cadarnhau.

TS – hoffwn ddiolch i bawb am fynychu cyfarfodydd ac yr holl waith a wnaed ar ran Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam. Rwy'n credu ein bod i gyd wedi gweithio'n dda gyda'n gilydd, fel tîm.